# Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012

**2012 dccc 2**

*Y weithdrefn ar gyfer is-ddeddfau*

**7 Is-ddeddfau pan fo cadarnhad yn ofynnol**

(1) Mae'r adran hon yn gymwys i is-ddeddfau a wneir gan awdurdod deddfu o dan unrhyw ddeddfiad ar wahân i'r rhai a restrir yn Rhan 1 o Atodlen 1, gan gynnwys is-ddeddfau sy'n diwygio neu'n dirymu is-ddeddfau a wnaed ganddo'n flaenorol.

(2) Ond nid yw'r adran hon yn gymwys i'r graddau bod y deddfiad sy'n rhoi'r pŵer i wneud is-ddeddf yn gwneud darpariaeth wahanol mewn perthynas ag un neu ragor o'r canlynol –

(a) gofyniad i gyflwyno is-ddeddfau ar gyfer cael cadarnhad;

(b) cyhoeddi hysbysiad o fwriad i wneud yr is-ddeddf;

(c) cyhoeddi'r is-ddeddf;

(d) trefnu bod copïau o'r is-ddeddf ar gael.

(3) Cyn iddo wneud is-ddeddf y mae'r adran hon yn gymwys iddi, rhaid i awdurdod –

(a) cyhoeddi ar wefan yr awdurdod ddatganiad ysgrifenedig cychwynnol sy'n disgrifio'r mater y mae'r awdurdod o'r farn y gellir mynd i'r afael ag ef drwy wneud is-ddeddf;

(b) ymgynghori ag unrhyw berson (gan gynnwys cyngor cymuned pan fo'n gymwys) y mae'r awdurdod o'r farn ei fod yn debygol o fod â diddordeb yn y mater neu'n gael ei effeithio ganddo.

(4) Yn dilyn yr ymgynghoriad, rhaid i'r awdurdod ystyried yr ymatebion a phenderfynu ai gwneud is-ddeddf yw'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â'r mater.

(5) Yna rhaid i'r awdurdod gyhoeddi ail ddatganiad ysgrifenedig ar ei wefan sy'n cynnwys –

(a) y datganiad ysgrifenedig cychwynnol;

(b) crynodeb o'r ymgynghoriad a'r ymatebion;

(c) ei benderfyniad;

(d) y rhesymau am y penderfyniad hwnnw.

(6) Rhaid i is-ddeddfau a wnaed gan yr awdurdod deddfu gael eu cyflwyno i'r awdurdod cadarnhau ac nid ydynt yn cael effaith oni chânt a nes y cânt eu cadarnhau gan yr awdurdod cadarnhau.

(7) O leiaf chwe wythnos cyn cyflwyno is-ddeddf ar gyfer cael cadarnhad, rhaid cyhoeddi hysbysiad o fwriad yr awdurdod deddfu i wneud hynny –

(a) mewn un neu fwy o bapurau newyddion lleol sy'n cylchredeg yn yr ardal y mae'r is-ddeddf i fod yn gymwys iddi;

(b) ar wefan yr awdurdod.

(8) Am o leiaf chwe wythnos cyn cyflwyno'r is-ddeddf ar gyfer cael cadarnhad, rhaid i'r awdurdod deddfu sicrhau –

(a) bod yr is-ddeddf yn cael ei chyhoeddi ar wefan yr awdurdod;

(b) bod copi o'r is-ddeddf yn cael ei adneuo mewn man yn ardal yr awdurdod (ac, yn achos is-ddeddf a wnaed gan **[**[F1]Gorff Adnoddau Naturiol Cymru**]** o dan Ddeddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949, mewn man yn ardal pob cyngor ar gyfer sir neu fwrdeistref sirol mae'r is-ddeddf yn gymwys i'w ardal);

(c) pan fo'n gymwys, bod copi yn cael ei anfon at bob cyngor cymuned y mae'r awdurdod o'r farn ei bod yn debygol yr effeithir ar ei ardal gan yr is-ddeddf;

(d) bod copi ar gael i'w weld gan y cyhoedd ar bob adeg resymol yn ddi-dâl.

(9) Rhaid i'r awdurdod deddfu roi copi o'r is-ddeddf i unrhyw berson sy'n gwneud cais amdano ar yr amod bod y person hwnnw'n talu ffi resymol a godir gan yr awdurdod (os oes un).

(10) Caiff yr awdurdod cadarnhau gadarnhau, neu wrthod cadarnhau, unrhyw is-ddeddf a gyflwynir iddo o dan yr adran hon.

(11) At ddibenion y Ddeddf hon, yr awdurdod cadarnhau yw –

(a) y person a bennir yn y deddfiad y gwneir yr is-ddeddfau odano fel y person sydd i gadarnhau'r is-ddeddfau, neu

(b) os na phennir unrhyw berson, Gweinidogion Cymru.

(12) Mae swyddogaethau Gweinidogion Cymru o dan is-adran (11)(b) yn arferadwy yn gydredol â'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Geiriau yn a. 7(8)(b) wedi eu hamnewid (21.5.2016) gan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (anaw 3), a. 88(2)(g), **Atod. 2 para. 30(3)**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 7 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 22(2)**

**I2** A. 7 mewn grym ar 31.3.2015 gan O.S. 2015/1025, **ergl. 2(g)** (ynghyd ag ergl. 3)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Is-ddeddfau Llywodraeth Leol (Cymru) 2012, Adran 7.